

Y Celfyddydau Mynegiannol

Thema:

Creu rap am Landyfái i ddweud pam hoffan nhw fyw yno.

Datblygu sgiliau **ysgrifennu** a **llafaredd**

Gwybodaeth flaenorol:

Mae'r plant wedi bod yn dysgu am eu hardal leol ac wedi gwneud rhestr o enwau ac ansoddeiriau i ddisgrifio eu pentref.

Ffocws iaith:

Defnyddio'r patrwm 'Hoffwn i.' Ysgrifennu beth hoffan nhw ei wneud yn Llandyfái a pherfformio'r rap i'r dosbarth.

Patrwm:

Hoffwn i fyw yn Llandyfái achos mae'n bert iawn.
Hoffwn i fynd i'r parc a'r cae achos maen nhw'n hwyl.
Hoffwn i gerdded i lawr y stryd a gweld y defaid blewog.
Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall

Geirfa:

Hoffwn i = Treiglâd Meddwl , Hoffwn i ddim
Achos mae'n

Gweithgareddau:

Bydd y plant yn gweithio mewn grwpiau o dri i greu dau bennill o rap am Landyfái. Dylen nhw ddefnyddio eu rhestrau o enwau ac ansoddeiriau i'w helpu i ysgrifennu'r adnod/adnodau. Byddan nhw wedyn yn perfformio'r raps gyda'r dosbarth.

Iechyd a Lles

Thema:

Chwarae'r gêm lleidr brawddegau gyda phawb.

Datblygu sgiliau **gwrandio** **llafaredd** **Darllen**

Gwybodaeth flaenorol:

Mae'r dosbarth wedi bod yn meddwl sut gallen nhw gadw'n iach yn eu hardal leol. Maen nhw wedi gwneud rhestr o syniadau mewn grwpiau.

Ffocws iaith:

Ailadrodd y brawddegau i ymarfer y patrwm newydd.
Defnyddio'r patrwm 'Gallwn i.'

Patrwm:

Gallwn i brynu bwyd ffres lleol i'w fwyta
Gallwn i gerdded i'r ysgol
Gallwn i chwarae i dîm chwaraeon lleol
Gallwn i fynd i redeg ar y traeth
Gallwn i dyfu fy mwyd fy hun

Geirfa:

Gallwn i
Allwn i ddim

Gweithgareddau:

Bydd y plant yn chwarae'r gêm lleidr brawddegau. Mae rhaid iddyn nhw ddewis dwy frawddeg oddi ar y bwrdd i ysgrifennu ar eu darnau o bapur. Wedyn, byddan nhw'n mynd o gwmpas y dosbarth ac yn darllen brawddeg oddi ar y bwrdd. Os yw wedi ei ysgrifennu ar eu papur, gallan nhw'n ei ddwyn. Mae rhaid iddyn nhw geisio dwyn y mwyaf o frawddegau.

Y Dyniaethau

Thema:

Cymharu Sir Benfro gyda Brasil

Datblygu sgiliau **Darllen**

Gwybodaeth flaenorol:

Mae'r plant yn gwybod ansoddeiriau i ddisgrifio lleoedd fel gwlyb, oer, mawr, bach. Maen nhw wedi bod yn dysgu Brasil ac yn gwybod llawer o ffeithiau am y wlad. Maen nhw'n gwybod geiriau fel mynyddoedd, arfordir, bwyd cartref, gwlad a poblogaidd.

Ffocws iaith:

Defnyddio'r patrwm 'gwlypach na, mwy na.'
I gymharu Cymru gyda Brasil

Patrwm:

Mae Cymru yn sychach na Brasil
Mae Brasil yn wlypach na Chymru
Mae Cymru yn oerach na Brasil
Mae Mynyddoedd Brasil yn fwy dramatig na mynyddoedd Cymru
Mae bwyd cartref Brasil yn fwy sbeislyd na bwyd cartref Cymru.

Geirfa:

na, fwy, sychach, oerach, wlypach, dwymach,

Gweithgareddau:

Bydd y plant yn darllen y geiriau ar y sgrin ac yn eu symud i greu'r frawddeg gywir. Byddan nhw'n rasio eu partner gorffen y gêm yn yr amser cyflymaf. Gallan nhw greu eu brawddegau eu hunain i grŵp arall eu rhoi at ei gilydd.

<u>leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</u> <u>Thema:</u> Ysgrifennwch adolygiad ar gyfer ‘Taith gwefan’ am Sir Benfro. Ceisio perswadio pobl i ymweld. Datblygu sgiliau ysgrifennu <u>Gwybodaeth flaenorol:</u> Cyn y wers mae’r plant wedi bod yn edrych ar luniau gwahanol o Sir Benfro ac yn ysgrifennu brawddegau amdany’n nhw i ddisgrifio pam eu bod yn arbennig. <u>Ffocws iaith:</u> Mynegi barn am Sir Benfro <u>Patrwm:</u> Beth wyt ti’n feddwl o Gastell Penfro Rydw i’n meddwl bod Castell Penfro yn fendigedig achos.. Beth wyt ti’n feddwl am y traethau? Rydw i’n meddwl bod y traethau yn brydferth iawn. <u>Geirfa:</u> Diddorol, hardd, heddychol, hanesyddol, dawel, cyffrous <u>Gweithgareddau:</u> Bydd y plant yn ysgrifennu adolygiad ar gyfer y cynghorydd ‘taith gwefan.’ Dwedan nhw bâm y dylai pawb ymweld â Sir Benfro yn difynio ymadroddion fel ‘Rydw i’n meddwl bod Sir Benfro yn anhygoel achos mae llawer o draethau hardd. Byddan nhw’n defnyddio’r templed i ysgrifennu eu hadolygiad ac wedyn bydda i’n gwneud llyfr ohonyn nhw.	<u>Mathemateg a Rhifedd</u> <u>Thema:</u> Defnyddio cyfarwyddiadau ar fap. Datblygu sgiliau gwrandu llafaredd <u>Gwybodaeth flaenorol:</u> Mae plant wedi bod yn dysgu am eu hardal leol ac enwau’r gwahanol leoedd. Maen nhw’n gwybod sut i ddweud Llys yr Esgob Llandyfái, swyddfa bost, cae chwarae, ysgol, traeth, pont, parc a gwesty. <u>Ffocws iaith:</u> I gyfeirio rhywun at le ar fap gan ddefnyddio’r iaith gywir. <u>Patrwm:</u> Ble mae....? Trowch i’r dde/chwith Ewch yn syth ymlaen heibio Tu ôl O flaen Cymera’r tro nesa Cymera’r tro cyntaf Cymera’r ail dro ar y chwith <u>Gweithgareddau:</u> Bydd angen i’r plant ddefnyddio cyfarwyddiadau i ddod o hyd i leoedd gwahanol ar fap syml o Landyfái. Byddan nhw’n gweithio gyda phartner a bydd un partner yn gofyn y cwestiwn ‘Ble mae...swyddfa bost?’ ac wedyn bydd y person arall yn ateb trwy roi cyfarwyddiadau i’r lle.	<u>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</u> <u>Thema:</u> Rhoi gwahanol anifeiliaid yn y cynefin cywir Datblygu sgiliau llafaredd <u>Gwybodaeth flaenorol:</u> Mae’r plant yn gwybod enwau creaduriaid y môr ac anifeiliaid tir. Maen nhw’n gwybod enwau cynefinoedd gwahanol yn y Gymraeg hefyd. <u>Ffocws iaith:</u> I ddefnyddio ‘Taswn i a baswn i’ wrth siarad am ble mae gwahanol anifeiliaid yn byw. <u>Patrwm:</u> Taswn i’n sêl baswn i’n bwy yn y môr Taswn i’n sêl faswn i ddim yn byw mewn coeden Taswn i’n granc baswn i’n bwy o dan graig Taswn i’n granc faswn i ddim yn byw yn y cae <u>Geirfa:</u> Taswn i Baswn i Faswn i ddim o dan, yn, ar, mewn, <u>Gweithgareddau:</u> Bydd y plant yn gweithio mewn grwpiau bach i chwarae’r gêm. Rhaid iddyn nhw roi gwahanol anifeiliaid yn y cynefinoedd cywir ac yn dweud y patrwm brawddeg ‘Taswn i’n baswn i’n byw... Wedyn bydd y plant eraill yn y grŵp yn dweud a ydyn nhw’n gywir.
--	--	---

Cyflwyniad

Rydw i wedi dewis Sir Benfro fel fy mhwnc ar gyfer y pecyn hwn oherwydd un o fy mhynciau yn y dosbarth yw 'Pam mae Sir Benfro mor arbennig?' Roeddwn i eisiau defnyddio patrymau a gweithgareddau ar gyfer y pwnc hwn oherwydd y plant yn mwynhau dysgu ble mae nhw'n byw a pham ei fod mor arbennig. Mae'n bwysig iawn bod gan y plant ddiddordeb yn y pwnc ac eisiau gwybod mwy amdano. Bydda i'n defnyddio y gemau a syniadau Clare Seccombe a Dr Gianfranco Conti yn y dosbarth oherwydd rydw i'n gwybod eu bod yn effeithiol ar gyfer dysgu iaith newydd. Yn fy mhecyn, rydw i wedi defnyddio gweithgareddau ar gyfer dysgwyr cinesthetig megis defnyddio symudiadau wrth ddysgu geirfa newydd a tasgau ymarferol fel symud y lluniau i'r cynefinoedd cywir. Rydw i wedi defnyddio gweithgareddau ar gyfer dysgwyr clywedol megis ailadrodd y geiriau yn y slot drilio a defnyddio'r dechneg frechdan. Yn ychwanegol, rydw i wedi defnyddio gweithgareddau ar gyfer dysgwyr gweledol megis lluniau ar gyfer geiriau newydd a ffotograffau o Sir Benfro.

Rydw i wedi dysgu pa mor bwysig yw drilio wrth ddysgu iaith a sut mae'n bwysig ei wneud yn hwyl a defnyddio symudiad. Mae angen i'r plant glywed yr iaith a defnyddio llawer o ailadrodd hefyd. Ar ben hynny, rydw i'n meddwl bod yn bwysig iawn defnyddio'r un patrwm iaith drwy gydol y wers dro ar ôl tro. Er enghraifft rydw i wedi defnyddio'r gêm 'lleidr brawddegau' ar gyfer un o'r gweithgareddau gallwn i felly bydd y plant yn dweud y patrwm droeon yn ystod y gweithgaredd ac yn gwrando arno fe hefyd. Rydw i wedi defnyddio'r fethodoleg hon ar gyfer fy holl weithgareddau felly mae'r patrwm iaith yn cael ei ailadrodd drosodd a throsodd.

Pan fyddaf yn mynd yn ôl i'r ysgol bydda i'n defnyddio mwy o symud a mwy o ailadrodd yn fy slot drilio. Bydda i'n defnyddio symudiadau, lleisiau gwahanol ac yn chwarae llawer o gemau fel bod y plant yn mwynhau dysgu ac yn gallu dysgu. Bydda i'n defnyddio llawer o weithgareddau newydd yn yr ysgol o'r crws megis Dr Gianfranco Conti's pyramid iaith, darllenydd meddwl, lleidr brawddegau. Bydda i'n defnyddio weithgareddau Clare Seccombe megis bingo sribed, brawddegau cymysg, drws trap, llyfrau meicro a y gêm fflicio.

Rydw i'n wedi dewis gweithgaredd 'defnyddio cyfarwyddiadau ar fap' i ddatblygu gwrando oherwydd bydd yn helpu'r plant i ddysgu cyfarwyddiadau mewn ffordd hwyliog a diddorol ac yn helpu i ddatblygu eu sgiliau gwrando. Dewisais y gweithgaredd 'ysgrifennu adolygiad' i ddatblygu ysgrifennu oherwydd byddai'r plant yn gyfarwydd a gweld adolygiadau o eitemau neu leoedd. Rydw i'n meddwl bod bydd y plant yn mwynhau gwneud yr adolygiad a gwneud llyfr dosbarth ohonyn nhw i gyd i ddangos ymwelwyr a dosbarthiadau eraill. Rydw i'n wedi dewis gweithgaredd 'lleidr brawddegau' i ddatblygu darllen achos mae'n weithgaredd bendigedig arall gan Dr Gianfranco Conti. Rydw i wedi defnyddio hwn yn y hwb ac mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Rhaid y plant wrando'n ofalus ar eu partner yn y gêm.

Hoffwn i wneud dysgu iaith yn fwy o hwyl pan fyddaf yn mynd yn ôl i'r ysgol a gwneud i'r plant deimlo'n gyffrous am ddysgu ac eisiau dysgu mwy. Bydd y gweithgareddau rydw i wedi dysgu ar y cwrs yn bendant cael effaith ar safonau Cymraeg fy ysgol oherwydd fod y staff i gyd yn eu

defnyddio bydd y plant yn dechrau mwynhau dysgu Cymraeg. Mae angen i fi wneud yn siŵr bod athrawon yn defnyddio'r gwahanol weithgareddau a'r methodoleg oherwydd mae angen i'r plant glywed ac ymarfer Cymraeg bod dydd i symud ymlaen.

Y Dyniaethau

Thema:

Cymharu Sir Benfro gyda Brasil

Datblygu sgiliau **Darllen**

Gwybodaeth flaenorol:

Mae'r plant yn gwybod ansoddeiriau i ddisgrifio lleoedd fel gwlyb, oer, mawr, bach. Maen nhw wedi bod yn dysgu Brasil ac yn gwybod llawer o ffeithiau am y wlad ar ôl darllen y llyfr hwn yn y dosbarth gyda'i gilydd. Ysgrifennon ni ffeithiau am y wlad ar y bwrdd gwyn i'w defnyddio heddiw. Hefyd, maen nhw'n gwybod geiriau fel mynyddoedd, arfordir, bwyd cartref, gwlad a poblogaidd.



Ffocws iaith:

Defnyddio'r patrwm 'gwlypach na, mwy na.'

I gymharu Cymru gyda Brasil

Patrwm:

Mae Cymru yn sychach na Brasil

Mae Brasil yn wlypach na Chymru


Mae Cymru yn oerach na Brasil

Mae Mynyddoedd Brasil yn fwy dramatig na mynyddoedd Cymru

Mae bwyd cartref Brasil yn fwy sbeislyd na bwyd cartref Cymru.

Gweithgareddau:

Byddwn ni'n dechrau'r wers trwy edrych ar y ffeithiau o'r wers ddoe. Defnyddia i ffaith ac yn ysgrifennu brawddeg yn cymharu Brasil â Chymru 'Mae Brasil yn wlypach na Chymru.' Byddwn ni'n ei ddweud mewn lleisiau gwahanol ac yn glap am bob gair. Dangosa i frawddeg arall ar y bwrdd a byddwn ni'n ei dweud gyda'n gilydd eto. Byddwn ni'n defnyddio gweithredoedd ar gyfer pob gair i helpu'r plant i gofio'r brawddegau. Wedyn, bydd y plant yn darllen y geiriau ar y sgrin ac yn eu symud i greu'r frawddeg gywir. Byddan nhw'n rasio eu partner gorffen y gêm yn yr amser cyflymaf. Bydd un grŵp yn defnyddio gêm gyda brawddegau symlach i'w darllen a rhoi yn y drefn gywir.



Bydd y grŵp arall yn defnyddio brawddegau hirach i'w rhoi yn y drefn gywir a'u darllen i'r grŵp. Dylen nhw gymryd eu tro i ddarllen y brawddegau a gweld pwy sydd â'r amser cyflymaf.



Gallan nhw greu eu brawddegau eu hunain i grŵp arall eu rhoi at ei gilydd. Mae'n rhaid iddyn nhw ysgrifennu brawddeg yn cymharu Cymru gyda Brasil a thorri pob gair allan. Wedyn gallan nhw roi eu brawddeg i grŵp arall i'w rhoi at ei gilydd i'w darllen.

Y Celfyddydau Mynegiannol

Thema:

Creu rap am Llandyfái i ddweud pam hoffen nhw fyw yno.

Datblygu sgiliau ysgrifennu a llafaredd

Gwybodaeth flaenorol:

Mae'r plant wedi bod yn dysgu am eu hardal leol ac wedi gwneud rhestr o enwau ac ansoddeiriau i ddisgrifio eu pentref. Rydw i wedi defnyddio eu geiriau ac wedi gwneud mat iaith i'w helpu gyda gweithgaredd heddiw.

Ffocws iaith:

Defnyddio'r patrwm 'Hoffwn i.' Ysgrifennu beth hoffen nhw ei wneud yn Llandyfái a pherfformio'r rap i'r dosbarth.

Patrwm:

Hoffwn i fyw yn Llandyfái achos mae'n bert iawn.

Geirfa:

Hoffwn i = Treigladd Meddwl , Hoffwn i ddim

Hoffwn i fynd i'r traeth, siop leol, coedwig, eglwys, swyddfa bost, môr clir.

Gweithgareddau:

Ar ddechrau'r wers byddan i'n cyflwyno'r patrwm brawddeg newydd gan ddefnyddio dril. Mae'n bwysig gwneud hyn yn hwyl a defnyddio gweithredoedd i helpu'r plant i ddysgu'r iaith newydd. Byddan nhw'n ailadrodd yr ymadrodd 'hoffwn i fynd' a byddan i'n newid y gair olaf bob tro ac yn defnyddio gweithred am y gair. Er enghraifft:

Hoffwn i fynd i'r traeth (yn dawel)

Hoffwn i fynd i'r siop leol (fel robot)

Hoffwn i fynd i'r goedwig (fel hen berson)
Hoffwn i fynd i'r eglwys (yn arall)
Hoffwn i fynd i'r swyddfa bost (yn uchel)

Wedyn, byddan i'n dangos rap i'r plant am Landyfái a pham y byddwn i eisiau byw yno. Byddan nhw'n ailadrodd pob llinell ar fy ôl i. Dylen nhw ei ddweud a chlapio'r rhythm.

Gweithgaredd gwahaniaethol

Bydd y plant yn gweithio mewn grwpiau o dri i greu rap am Landyfái.

Grŵp un — Bydd y grŵp hwn yn defnyddio'r rap isel. Mae'n bwysig bod gan y grŵp hwn y geiriau cywir.

Grŵp 1		
Hoffwn i fyw yn Landyfái		
Hoffwn i fyw yn Landyfái achos mae'n.....		
Hoffwn i fynd i'r parc a'r cae achos mae nhw'n.....		
Hoffwn i gerdded i lawr y stryd a gweld y.....		
Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall.		
Hoffwn i fyw yn Landyfái achos mae'n lle.....		
Hoffwn i fynd i'r traeth hardd a nofio yn y môr.....		
Hoffwn i weld y trên pert a'r holl bobl.....		
Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall.		
llawer o hwyl	dafydd blswag	bert iawn
môr clir	hapus	bendigedig

gwreiddiol ac ysgrifennu'r geiriau coll o'r bocs sgaffaldau ac wedyn gallan nhw ddewis y

Grŵp dau – Bydd y grŵp hwn yn defnyddio’r mat iaith i’w helpu i ddewis geiriau gwahanol i’w rhoi yn y bylchau. Byddan nhw’n cael y rap gwreiddiol ac yna’n defnyddio geiriau newydd hefyd.

Hoffwn i fyw yn Llandyfai

Hoffwn i fyw yn Llandyfai achos mae'n_____.

Hoffwn i fynd i'r _____achos mae'n _____.

Hoffwn i gerdded i lawr y stryd a gweld y _____.

Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall.

Hoffwn i fyw yn Llandyfai achos mae'n lle _____.

Hoffwn i fynd i'r _____ a gweld y _____.

Hoffwn i weld y _____ a _____.

Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall.

Grŵp tri – Byddan nhw'n ysgrifennu pennill neu a'r mat iaith.

[illegible]

ddau gan ddefnyddio'r rap gwreiddiol

Bydd pob grŵp yn perfformio eu raps i'r dosbarth ar ôl ymarfer ei ddweud sawl gwaith gyda'i gilydd.

Llandyfái

Gweithgaredd
ysgrifenedig

Gweithgared
llafar

Mae'n	wych great	Hoffwn i fynd i'r	traeth 	Hoffwn i weld	blodau 
	fendigedig fantastic		siop leol 		defaid 
	brydferth beautiful		coedwig 		pysgodyn 
	heddychlon peaceful		parc 		pobl 
	dawel quiet		cae chwarae 		gwiwerod 
	hwyl fun		eglwys 		y trên 
	dda good		swyddfa bost 		y tywod 
	anhygoel amazing		môr clir 		fy ffrindiau 
			fferm 		

Gweithgaredd
ysgrifenedig



Gweithgared
d llafar

Hoffwn i fyw yn Llandyfâi

Hoffwn i fyw yn Llandyfâi achos mae'n bert iawn.
Hoffwn i fynd i'r parc a'r cae achos maen nhw'n llawer o hwyl.
Hoffwn i gerdded i lawr y stryd a gweld y defaid blewog.
Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall.

Hoffwn i fyw yn Llandyfâi achos mae'n lle bendigedig.
Hoffwn i fynd i'r traeth hardd a nofio yn y môr clir.
Hoffwn i weld y trê'n pert a'r holl bobl hapus.
Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall.

Hoffwn i fyw yn Llandyfâi achos mae'n dawel iawn.
Hoffwn i fynd i'r siop leol a phrynu'r bwyd blasus.
Hoffwn i redeg trwy'r coed a gwrando ar sŵn y dail.
Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall

Grŵp 1

Hoffwn i fyw yn Llandyfâi

Hoffwn i fyw yn Llandyfâi achos mae'n_____.

Hoffwn i fynd i'r parc a'r cae achos mae nhw'n _____.

Hoffwn i gerdded i lawr y stryd a gweld y _____.

Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall.

Hoffwn i fyw yn Llandyfâi achos mae'n lle _____.

Hoffwn i fynd i'r traeth hardd a nofio yn y môr _____.

Hoffwn i weld y trê'n pert a'r holl bobl _____.

Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall.

llawer o hwyl

dafadd blewog

bert iawn

môr clir

hapus

bendigedig

Grŵp 2 Hoffwn i fyw yn Llandyfâi

Hoffwn i fyw yn Llandyfâi achos mae'n_____.

Hoffwn i fynd i'r _____achos mae'n _____.

Hoffwn i gerdded i lawr y stryd a gweld y _____.

Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall.

Hoffwn i fyw yn Llandyfâi achos mae'n lle _____.

Hoffwn i fynd i'r_____ a gweld y_____.

Hoffwn i weld y_____ a_____.

Hoffwn i ddim eisiau byw yn unman arall.

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Thema:

Ysgrifennwch adolygiad ar gyfer 'Taith gwefan' am Sir Benfro. Ceisio perswadio pobl i ymweld.

Datblygu sgiliau ysgrifennu

Gwybodaeth flaenorol:

Cyn y wers mae'r plant wedi bod yn edrych ar luniau gwahanol o Sir Benfro ac yn ysgrifennu brawddegau amdanyn nhw i ddisgrifio pam eu bod yn arbennig. Roedd un llun o gastell Penfro. Roedd un o fae Barafundle. Llun arall oedd o fywyd gwyllt sydd i'w gael yn Sir Benfro. Roedd un llun o'r chwaraeon dŵr yn Sir Benfro. Llun arall oedd o Folly farm, Manor park a Heatherton. Ysgrifennod pob plentyn frawddeg am bob llun ar bostyn i ddweud sut le oedd o. Er enghraifft ar y llun o fae Barafundle gallen nhw fod wedi ysgrifennu ei fod yn brydferth neu'n dawel.

Ffocws iaith:

Mynegi barn am Sir Benfro

Patrwm:

Beth wyt ti'n feddwl o Gastell Penfro

Rydw i'n meddwl bod Castell Penfro yn fendigedig achos..

Beth wyt ti'n feddwl am y traethau?

Rydw i'n meddwl bod y traethau yn brydferth iawn.

Geirfa:

Diddorol, hardd, heddychol, hanesyddol, dawel, cyffrous, hwyl

Gweithgareddau

I ddechrau bydd y plant yn dysgu'r cwestiwn 'Beth wyt ti'n feddwl o'r traethau?' Byddan nhw'n ailadrodd hyn nes eu bod yn hyderus i'w ddweud. Ac wedyn byddan nhw'n dysgu'r ateb yn defnyddio cylchoedd. Gofynna i i'r plant ddweud 'Rydw i'n meddwl bod – felly byddan nhw'n dweud 'rydw i'n' yn y cylchyn cyntaf, wedyn 'meddwl' yn y cylchwn ail a 'bod' yn y cylchyn olaf. Ar ôl hyn, byddan nhw'n symud ymlaen i ddweud 'Rydw i'n meddwl bod' yn y cylchwn cyntaf, wedyn byddan nhw'n dweud 'y traethau' yn y cylchyn ail a 'yn brydferth neu yn dawel' yn y cylchyn olaf.

Bydd y plant yn ysgrifennu adolygiad ar gyfer y cynghorydd 'taith gwefan.' Dwedan nhw bâm y dylai pawb ymweld â Sir Benfro yn difynio ymadroddion fel 'Rydw i'n meddwl bod Sir Benfro yn anhygoel achos mae llawer o draethau hardd.

Byddan nhw'n defnyddio'r templed i ysgrifennu eu hadolygiad ac wedyn bydda i'n gwneud llyfr ohonyn nhw. Byddan



nhw'n defnyddio'r rhestr o ansoddeiriau o'r wers ddiwethaf a'r nodiadau post-it ar y lluniau i'w helpu. Bydd y cwestiwn 'beth wyt ti'n feddwl o' ar y bwrdd a'r ateb 'rydw i'n meddwl bod' hefyd. Bydd hyn yn helpu'r plant i ysgrifennu eu hadolygiad. Gallan nhw hefyd ddefnyddio'r daflen o'r wers pan wnaethant rap. Bydd y plant yn gweithio gyda fi mewn grwpiau bach i wneud y dasg hon. Bydda i'n gofyn cwestiynau gwahanol i wahanol grwpiau ac yn defnyddio gwahanol dempledi o'r adolygiad iddyn nhw ysgrifennu.



Cynghorydd taith

Gweithgaredd
ysgrifenedig

Enw lle: Sir Benfro			
Teitl yr adolygiad: Mae angen i chi ymweld!!			
Faint o sêr? ★ ★ ★ ★ ★			
Adolygiad o'r lle: Rydw i'n meddwl bod Sir Benfro yn wych oherwydd mae yna			
lawer o draethau hardd i'w harchwilio. Rydw i'n meddwl bod y cestyll yn			
ddiddorol iawn ac maen nhw'n hwyl i edrych o gwmpas. Rydw i'n hoffi yn mynd			
i lefydd fel <u>Heatherton</u> a <u>Folly Farm</u> oherwydd rydw i'n meddwl bod maen nhw'n			
gyffrous. Mae llawer o anifeiliaid i'w gweld yn Sir Benfro fel parod a morloi.			
Rydw i'n meddwl bod Sir Benfro yw'r lle gorau i ymweld!			
Lluniau o'r lle:			
			

Mathemateg a Rhifedd

Thema:

Defnyddio cyfarwyddiadau ar fap.

Datblygu sgiliau gwrandio llafaredd

Gwybodaeth flaenorol:

Mae plant wedi bod yn dysgu am eu hardal leol ac enwau'r gwahanol leoedd. Mae nhw'n gwybod sut i ddweud Llys yr Esgob Llandyfái, swyddfa bost, cae chwarae, ysgol, traeth, pont, parc, fferm a gwesty. Mae'n nhw wedi dysgu'r symbolau ar gyfer y gwahanol leoedd.

Ffocws iaith:

I gyfeirio rhywun at le ar fap gan ddefnyddio'r iaith gywir.

Patrwm:

Ble mae....?

Trowch i'r dde/chwith

Ewch yn syth ymlaen

heibio

Tu ôl

O flaen

Cymera'r tro nesa

Cymera'r tro cyntaf

Cymera'r ail dro ar y chwith

Gweithgareddau:


Yn gyntaf mae'r plant yn mynd i fynd dros yr hyn ddygon nhw wers ddiwethaf. Byddan nhw'n chwarae gêm gyflym o bwyntio at y llun cywir. Pan rydw i'n dweud gair fel 'ysgol' neu 'swyddfa bost' mae rhaid iddyn nhw bwyntio at y llun cywir ar y ddalen a dweud y gair hefyd. Ar ôl hyn, bydda i'n eu cyflwyno i'r eirfa newydd ar gyfer y wers. Byddwn ni'n edrych ar lun o'r map o Landyfái ar y bwrdd a bydda i'n dangos yr eirfa yn y bocs. Gallan nhw'n ailadrodd ar fy ôl i bob cyfeiriad a defnyddio gweithredoedd ar gyfer pob cyfeiriad.

Bydd angen i'r plant ddefnyddio cyfarwyddiadau i ddod o hyd i leoedd gwahanol ar fap syml o Landyfái. Byddan nhw'n gweithio gyda phartner a bydd un partner yn gofyn y cwestiwn 'Ble mae...swyddfa bost?' ac wedyn bydd y person arall yn ateb trwy roi cyfarwyddiadau i'r lle. Byddan nhw'n penderfynu o ble i ddechrau bob tro. Bydd gan un grŵp o blant llai o gyfarwyddiadau a map symlach a bydd gan grŵp arall fwy o gyfarwyddiadau i'w defnyddio a gallan nhw'n rhoi eraill ar y map.

Ble mae...?

gwrando llafaredd

Ble mae'r...?



Trowch i'r dde/chwith
Ewch yn syth ymlaen
heibio
Tu ôl
O flaen
Cymera'r tro nesa
Cymera'r tro cyntaf
Cymera'r ail dro ar y chwith

- Gofynna dy bartner fynd i le ar y map.
- Penderfyna o ble i ddechrau.
- Mae rhaid iddyn nhw ddefnyddio'r cyfarwyddiadau cywir.
- Wedyn, gallan nhw ofyn i ti ble mae lle ar y map.

Iechyd a Lles

Thema:

Chwarae'r gêm lleidr brawddegau gyda phawb.

Datblygu sgiliau gwranddo llafaredd Darllen

Gwybodaeth flaenorol:

Mae'r dosbarth wedi bod yn meddwl sut gallen nhw gadw'n iach yn eu hardal leol. Maen nhw wedi gwneud rhestr o syniadau mewn grwpiau.

Ffocws iaith:

Ailadrodd y brawddegau i ymarfer y patrwm newydd. Defnyddio'r patrwm 'Gallwn i.'

Patrwm:

Gallwn i brynu bwyd ffres lleol i'w fwyta

Gallwn i gerdded i'r ysgol

Gallwn i chwarae i dîm chwaraeon lleol

Gallwn i fynd i redeg ar y traeth

Gallwn i dyfu fy mwyd fy hun

Geirfa:

Gallwn i

Allwn i ddim

Gweithgareddau:

Byddwn i'n cyflwyno'r patrwm brawddeg newydd i'r dosbarth ac yn dweud y brawddegau ar y bwrdd gan ddefnyddio'r rhestrau a wnaethon nhw ddoe. Byddai'r plant yn ailadrodd y brawddegau ar fy ôl i gyda gweithredoedd. Wedyn byddwn

i'n dangos y weithred a byddai angen i'r plant ddweud y frawddeg gywir o'r bwrdd. Ar ôl hyn, bydd y plant yn chwarae'r gêm lleidr brawddegau. Mae rhaid iddyn nhw ddewis dwy frawddeg oddi ar y bwrdd i ysgrifennu ar eu darnau o bapur. Wedyn, byddan nhw'n mynd o gwmpas y dosbarth ac yn darllen brawddeg oddi ar y bwrdd. Yn gyntaf rhaid iddyn nhw chwarae roc papur siswrn i weld pwy bydd yn dechrau. Os yw wedi ei ysgrifennu ar eu papur, gallan nhw'n ei ddwyn. Mae rhaid iddyn nhw geisio dwyn y mwyaf o frawddegau.